Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

Lleoliad:

Ystafell Bwyllgora 2 - Y Senedd

Dyddiad: Dydd Iau, 9 Ionawr 2020

Amser: 09.17 - 12.18

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/5968

Yn bresennol

Categori	Enwau
Aelodau'r Cynulliad:	Dai Lloyd AC (Cadeirydd) Jayne Bryant AC Angela Burns AC Helen Mary Jones AC Lynne Neagle AC David Rees AC
Tystion:	Chris Jennings, Cyfarwyddwr Gweithredol, Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi yng Nghymru Amanda Corrigan, Carchar EM Abertawe Janet Wallsgrove, Carchar EM Parc Dave Thomas, Swyddfa Archwilio Cymru Rhys Jones, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru Erica Hawes, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Staff y Pwyllgor:	Sarah Beasley (Clerc) Claire Morris (Ail Glerc)

	Lowri Jones (Dirprwy Glerc) Sarah Hatherley (Ymchwilydd) Philippa Watkins (Ymchwilydd)

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod.

2 Darparu gofal iechyd a gofal cymdeithasol ar yr ystâd carchardai i oedolion: Sesiwn dystiolaeth gyda Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi

2.1 Cafodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Wasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi.

2.2 Cytunodd cynrychiolwyr Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi i ddarparu copi o'r Strategaeth Pobl Hŷn i'r Pwyllgor ac i ddarparu gwybodaeth am gyllid gofal iechyd am bob person yng ngharchardai Cymru.

3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(vi) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod hwn

3.1 Derbyniodd y Pwyllgor y Cynnig i wahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod.

4 Darparu gofal iechyd a gofal cymdeithasol ar yr ystâd carchardai i oedolion: Trafod y dystiolaeth

4.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.

5 Adolygiad ar y cyd o Drefniadau Llywodraethu Ansawdd Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg: Sesiwn friffio ffeithiol gyda Swyddfa Archwilio Cymru ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

5.1 Cafodd y Pwyllgor sesiwn friffio ffeithiol gan Swyddfa Archwilio Cymru ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru.

6 Iechyd meddwl yng nghyd-destun plismona a dalfa'r heddlu: Trafod ymateb Llywodraeth Cymru

6.1 Trafododd y Pwyllgor ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor cyn y ddadl yn y Cyfarfod Llawn ar 22 Ionawr.

7 Deintyddiaeth yng Nghymru: Rhaglen Ddiwygio Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol 2019

7.1 Trafododd y Pwyllgor Raglen Diwygio Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol 2019 a chytunwyd ar y dull gweithredu.

8 Cyfarwyddyd Gweinidogol – Trefniadau pensiwn y GIG ar gyfer 2019/20

8.1 Trafododd y Pwyllgor Gyfarwyddyd y Gweinidog – trefniadau pensiwn y GIG ar gyfer 2019/20 a chytunwyd ar y dull gweithredu.